

Teitl Swydd : Swyddog Digidol Mon a Gwynedd	Lleoliad: Llangefni, Porthmadog	Band Cyflogaeth : SO
Yn atebol i : Uwch Reolwr Cynlluniau Mon	Yn gyfrifol:	Amrediad Cyflog : £29,566 - £34,533
Prif ddiben y Swydd: Arwain, datblygu a chynghori ar amrywiaeth o gynlluniau digidol ar draws Mon a Gwynedd.		
Cyfrifoldebau	Sgiliau / Profiad	
<p>Prif Ddyletswyddau : Adnabod cyfleoedd i weithredu amrywiaeth o gynlluniau digidol arloesol (isadeiledd, sgiliau, cynhwysiad digidol, technolegau amrywiol), ar y cyd gyda partneriaid a rhanddeiliaid perthnasol.</p> <p>Cynorthwyo a chynghori busnesau a chymunedau ar gysylltedd bandeang ac, os oes angen /dymuniad, eu cefnogi i ddatblygu a gwireddu dull amgen o sicrhau cysylltiad (rhywbeth nad yw'n cael ei gynnig drwy law'r Rhaglen Cyflymu Cymru i fusnesau).</p> <p>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac ystod eang o unigolion a darparu cyngor technegol i gynulleidfa nad yw'n dechnegol.</p> <p>Mae'r gallu i greu perthynas waith cryf ac adeiladol gyda unigolion / sefydliadau ac arbenigwyr allanol allweddol yn hanfodol (e.e. Llywodreathau Lleol, Llywodraeth Cymru, Microsoft ayyb).</p> <p>Cydweithio'n effeithiol gyda staff a rhanddeiliaid allanol i ddatblygu gweithgareddau LEADER a chynnig arweiniad mewn meysydd cysylltiedig megis Rhyngwyd y Pethe' / Cynhwysiad Digidol / codio ayyb.</p> <p>Magu perthnasau weithiol cadarnhaol gyda phartneriaid allanol i sicrhau ffyniant a llwyddiant yn lleol.</p> <p>Cynnig arweiniad a sicrhau fod gweithgareddau / prosiectau digidol yn cael eu cynnal yn unol ag arfer gorau a pholisïau Menter Môn gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda holl faterion perthnasol megis GDPR. prosiect.</p>	<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad a dealltwriaeth o weithio ym maes arloesedd digidol. • Diddordeb a dealltwriaeth o raglenni digidol yn lleol ac yn genedlaethol. • Diddordeb a dealltwriaeth o argaledd bandeang yn lleol • Trosolwg ar dechnolegau IoT a manteision ac anfanteision y rhain o gymharu â thechnolegau presennol eraill (megis 4G ac ati) • Profiad o weithio mewn partneriaeth ac yn rhyngasiantaethol. • Y gallu i ddelio'n effeithiol a chwrtais â phobl ar bob lefel. <p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad o baratoi ceisiadau grant. 	
	Cymwysterau	
	<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gradd neu brofiad cyfystyr o weithio yn y maes 	<p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster rheoli prosiect

<p>Adnabod ffynonellau cyllid amrywiol a chefnogi'r Uwch Reolwr fel bo'r angen.</p> <p>Adrodd ar gynnydd gweithgareddau digidol i amrywiol gynulleidafoedd megis Uwch Reolwyr, Grwp Gweithredu Lleol Mon & Gwynedd (LEADER), Grwp Digidol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal a chyllidwyr ariannol yn ol yr angen.</p> <p>Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Ychwanegol: Arwain ar gynlluniau digidol y cwmni yn hyderus gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar arloesedd digidol yn lleol.</p> <p>Cynrychioli'r Cwmni: Bydd deillydd y swydd yn gynrychiolydd balch o gwmni Menter Môn ac yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau enw da i'r Cwmni.</p>		
Nodweddion Personol	Arall	
<p>Disgwylir i ddeiliant y swydd feddu'r sgiliau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau rhyngpersonol dda • Cyfrifol • Trefnus • Hyblyg • Dwyn perswâd, dylanwadu ac ysbrydoli eraill • Brwdfrydedd a chymhelliant • Sensitif • Hyderus 	Trwydded yrru gyfredol / y gallu i deithio yn ôl y gofyn	Hanfodol
	Y gallu i gyfathrebu yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg	Hanfodol – Cymraeg Lefel 5
	Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd	Hanfodol